# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **8 Gorffennaf 2021** |
| **Teitl:** | **Hen Ysgol Uwchradd Tregaron** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Ystyried cynnig i brynu yn ogystal â'r argymhellion yn dilyn cyfarfod yr is-grŵp ar 10/06/2021** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae'n siŵr y bydd yr Aelodau yn cofio fod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau, yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd 2019, wedi penderfynu:

*a) rhoi'r eiddo ar y farchnad drwy'r Adain Ystadau gan ofyn am gynigion o oddeutu £160,000;*

*b) defnyddio'r arian a geir drwy werthu'r eiddo i dalu ffioedd yr Adain Ystadau, sef 1% o'r gwerthiant ynghyd â chost yr adroddiad Tystysgrif Perfformiad Ynni (mae angen hwn er mwyn gallu rhoi'r eiddo ar y farchnad) am iddynt weithredu fel asiant wrth werthu'r eiddo;*

*c) rhoi dirprwyaeth i aelodau is-grŵp y Pwyllgor ystyried unrhyw gynigion gan brynwyr posib ar yr amod bod unrhyw gynnig i brynu'r eiddo yn dod yn ôl gerbron y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau er mwyn ei ystyried a gwneud penderfyniad terfynol yn ei gylch.*

## IS-GRŴP

1.2 Yr oedd is-grŵp a oedd yn cynnwys y Cynghorydd Elizabeth Evans, y Cynghorydd Keith Evans a'r Cynghorydd Ivor Williams wedi cwrdd â swyddogion o'r Gwasanaethau Cyfreithiol, yr Adain Ystadau a'r Gwasanaethau Democrataidd ddydd Iau, 10 Mehefin 2021, i drafod cynnig a ddaeth i law am yr eiddo.

1.3 Mae'r cynnig hwn yn un diamod (hynny yw, ddim yn amodol ar ganiatâd cynllunio neu unrhyw amodau eraill) ac mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad eithriedig sydd ynghlwm (Atodiad A). Mae'r Adain Ystadau yn cynghori, ar ôl marchnata'r eiddo a chael cyngor gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, y dylid derbyn y cynnig diamod a ddaeth i law.

1.4 Cytunodd yr is-grŵp i argymell i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau y dylai'r Pwyllgor dderbyn y cynnig fel y gellir bwrw ymlaen â'r gwerthiant.

## Y CAMAU NESAF

1.5 Fel ymddiriedolwyr sy'n penderfynu ar ran y Cyngor, caiff yr Aelodau eu hatgoffa, pa bynnag benderfyniad y deuent iddo, fod yn rhaid iddynt bwyso a mesur bob amser yr hyn sydd er lles pennaf yr elusen wrth iddynt wneud penderfyniadau. Mae'r Adran Gyfreithiol yn cynghori y byddai derbyn y cynnig sydd ar y bwrdd yn rhywbeth sydd er lles pennaf yr elusen gan fod yr Adain Ystadau yn argymell y cynnig. Hefyd byddai'n galluogi'r elusen i droi gwerth yr ased yn arian fel y gellir defnyddio'r enillion at amcanion yr elusen, sef hybu addysg i blant cyn oed ysgol ac oed ysgol yn Nhregaron.

1.6 Os bydd yr Aelodau'n penderfynu derbyn y cynnig uchod a bod y gwerthiant yn cael ei gwblhau, gellir dod ag adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau i roi gwybod iddynt am gyfanswm yr arian sydd ym meddiant yr elusen ar ôl cwblhau'r gwerthiant a chydag argymhellion o ran sut y dylid defnyddio'r arian hwnnw i gyflawni amcanion yr elusen. Mae croeso i'r Aelodau ystyried a hoffent benodi is-grŵp i'r Pwyllgor i weithio gyda Swyddogion mewn perthynas â'r argymhellion hynny, cyn bod unrhyw argymhellion yn dod yn ôl i'r Pwyllgor llawn i'w hystyried ac i benderfynu yn eu cylch.

**Argymhellion:**

a) Derbyn y cynnig i brynu Hen Ysgol Tregaron;

b) Penderfynu bod y Swyddogion, ar ran yr ymddiriedolaeth, yn dod i gytundeb ac yn cwblhau'r holl ddogfennaeth a materion ategol angenrheidiol, er mwyn bwrw ati i werthu'r eiddo;

c) Creu is-grŵp o'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau, i'w enwebu yn y cyfarfod ar 08/07/2021, a fydd yn cael ei ddirprwyo, ar ôl gwerthu'r eiddo, i ystyried argymhellion ynghylch sut i ddefnyddio unrhyw gyfalaf neu incwm sydd ym meddiant yr elusen a hynny er mwyn cyflawni amcanion yr elusen. Rhoddir gwybod i gyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau am unrhyw argymhellion a ddaw o'r is-grŵp, er mwyn iddynt eu hystyried ac i benderfynu yn eu cylch.

| | | |
|---|---|---|
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | I fwrw ymlaen i werthu'r eiddo. | |
| **Atodiadau:** | A – Gwybodaeth eithriedig (Hen Ysgol Uwchradd Tregaron) | |
| **Pennaeth y Gwasanaeth:** | **Elin Prysor** | **Russell Hughes-Pickering** |
| **Swyddogion Adrodd:** | **Louise Harries** | **Thomas Williams** |
| **Dyddiad:** | **22 Mehefin 2021** | |